

Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru 2014 – 2015

Tachwedd 2015



Tribiwnlys Tir
Amaethyddol
Cymru

Agricultural
Land Tribunal
Wales

Cynnwys

Rhagair		3
Adran 1	Amdanom Ni	4
Adran 2	Perfformiad a Chynnydd	7
Adran 3	Ein Cwsmeriaid	11
Adran 4	Blaenoriaethau Busnes	12
Adran 5	Gwariant	13

Rhagair

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu gwaith Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn fanwl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ei fwriad yw esbonio'r ffyrdd y mae'r Tribiwnlys yn cyflawni swyddogaeth bwysig iawn ar gyfer y gymuned amaethyddol yng Nghymru, hynny yw, wrth ddyfarnu ar amrywiaeth o anghydfodau sy'n codi rhwng landlordiaid a thenantiaid tir amaethyddol y mae eu trefniadau cytundebol yn amodol ar Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986. Yn ychwanegol at hyn, mae gwaith y Tribiwnlys yn ymestyn at ddyfarnu ar fathau arbennig o anghydfodau draenio, nid o angenrheidrwydd rhai sy'n effeithio ar dir amaethyddol, ond sy'n cael eu cwmpasu yn Neddf Draenio Tir 1991.

Ym mhob achos y mae'n gysylltiedig ag ef, mae cyfansoddiad y Tribiwnlys sy'n dyfarnu ar yr anghydfod yn cynnwys Cadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd sy'n gyfreithiol gymwys a dau aelod o'r Paneli Lleyg priodol, ac felly'n sicrhau, cyn belled ag y mae hi'n ddynol bosibl, bod y penderfyniadau sy'n cael eu cymryd yn derbyn gwybodaeth gan yr arbenigedd priodol a'u bod yn deg ac yn gytbwys. Oherwydd mai mewn achosion prin yn unig y mae'r Tribiwnlys yn dyfarnu costau i gael eu talu gan unrhyw barti, ac yn wahanol i'r Llys nid oes ffi yn daladwy pan mae trafodion yn cychwyn, mae gan y Tribiwnlys y fantais arbennig ar gyfer ei ddefnyddwyr o fod yn hygyrch ar gyfer datrys anghydfod o fewn ei awdurdodaeth, gyda'r risg ariannol lleiaf ar gyfer y partion sydd ynghlwm â'r mater. Mae'r fantais arbennig hon ar gyfer defnyddwyr y Tribiwnlys angen cael ei deall a'i gwerthfawrogi'n eang, fel y mae ymarfer y Tribiwnlys, er mwyn lleihau oedi a chyrraedd y penderfyniad yn yr holl achosion mor effeithlon ac mor fuan ag sy'n bosibl.

Bydd y Tribiwnlys yn elwa yn anferthol ar benodi'r Bargyfreithiwr blaenllaw, Christopher McNall, fel Dirprwy Gadeirydd eleni. Mae Christopher yn arbenigwr adnabyddus mewn cyfraith amaethyddol, yn ogystal â meysydd cyfreithiol cysylltiedig, ac nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd ei benodiad ef yn cael effaith gwirioneddol gadarnhaol ar y ffordd mae'r Tribiwnlys yn gweithio.

Yn olaf, hoffwn dalu teyrnged i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, a'i waith diflino sy'n sicrhau bod y Tribiwnlys yn rhedeg yn esmwyth bob amser.

James Buxton
Cadeirydd y Tribiwnlys



Adran 1 – Amdanom Ni

Yn yr adran hon, mae ein:

- Cefndir
- Trosolwg o'r gweithdrefnau
- Aelodau'r Tribiwnlys
- Cysylltu â'r Tribiwnlys

Cefndir

Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru (TTA Cymru) yn chwarae rhan bwysig mewn penderfynu ar anghydfodau a materion eraill rhwng landlordiaid a thenantiaid amaethyddol sy'n codi o gytundebau tenantiaeth a ddelir o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986. Yn ogystal, mae TTA Cymru yn penderfynu ar anghydfodau sy'n ymwneud â draenio tir amaethyddol o dan Ddeddf Draenio Tir 1991.

Corff statudol annibynnol yw TTA Cymru gydag awdurdod dros ardal ddaearyddol Cymru fel yr osodir yng Ngorchymyn (Ardal) Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol 1982 (OS 1982/97).

Trosolwg o'r gweithdrefnau

Prif nod TTA Cymru yw;

- darparu gwasanaeth cwsmeriaid cost-effeithiol sy'n perfformio'n dda i ddefnyddwyr y tribiwnlys a'i aelodau
- sicrhau bod pob agwedd ar waith y tribiwnlys yn cael ei weinyddu mewn modd sy'n sicrhau dyfarniad teg, annibynnol ac amserol
- gweithredu o fewn y fframwaith deddfwriaethol sy'n berthnasol yng Nghymru.

Mae'r tribiwnlys wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth perfformiad uchel ar gyfer siaradwyr Cymraeg a Saesneg sy'n defnyddio'r tribiwnlys.

Y rheoliadau sy'n llywodraethu gweithdrefnau'r tribiwnlys yw:

- Gorchymyn (Ardal) Tribiwnlys Tir Amaethyddol 1982 (OS 1982/97)
- Deddf Draenio Tir 1991
- Gorchymyn (Rheolau) Tribiwnlys Tir Amaethyddol 2007.

Mewn gwrandawriad tribiwnlys, mae'r panel yn cynnwys cadeirydd sydd wedi cymhwyso'n gyfreithiol a dau aelod lleyg. Mae'r aelodau lleyg wedi cael eu penodi oherwydd eu harbenigedd a'u gwybodaeth gyffredinol.

Mae gan bartïon mewn achos yr hawl i roi tystiolaeth a galw ar dystion.

Mae trefniadau'r gwrandawriad yn ystyried unrhyw anghenion arbennig sydd gan y rhai sy'n mynychu, megis mynediad i gadeiriau olwyn, cymhorthion clyw, cyfieithwyr ac ati.

Fel arfer, bydd gwrandawriadau'r tribiwnlys yn cael eu cynnal yn gyhoeddus ac yn digwydd yn agos at y tir dan sylw.

Nid oes unrhyw gost am wneud cais i'r tribiwnlys. At hynny, nid oes rhaid i unrhyw un o'r partion dalu am gost adroddiad arbenigwr annibynnol mewn achosion lle ceir hwn er mwyn cynorthwyo'r tribiwnlys.

Mae'r Tribiwnlys yn cyhoeddi ei benderfyniadau ar y wefan ar gyfer y Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru.

Gellir apelio yn erbyn benderfyniadau TTA Cymru ar sail gyfyngedig i Siambr Tiroedd y Tribiwnlys Uchaf.

Darperir gwybodaeth a chanllawiau llawn ynghylch gweithdrefnau'r tribiwnlys ar wefan y tribiwnlys yn: alt.gov.wales. Fell aral, cysylltwch ag ysgrifenyddiaeth y tribiwnlys i gael rhagor o wybodaeth neu os hoffech gael cyhoeddiadau mewn fformat gwahanol.


Aelodau'r Tribiwnlys

Mae'r Arglwydd Ganghellor yn gyfrifol am benodi ac ailbenodi'r cadeirydd, y dirprwy gadeirydd a'r aelodau lleyg. Mae'r penodiadau yn cael eu gwneud yn dilyn hysbysebu'r swyddi gwag a chyfweliad cystadleuol gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

Cadeirydd: Mae gan y cadeirydd gyfrifoldeb barnwrol am y tribiwnlys.

Aelodau Lleyg: Mae gan aelodau lleyg amrediad eang o wybodaeth a phrofiad perthnasol y maen nhw'n eu defnyddio ym mhob gwrandawriad. Maen nhw'n eistedd ar Baneli Draenio Tir, Ffermwyr neu Dirfeddianwyr.

Ysgrifenyddiaeth: Mae gweinyddiaeth feunyddiol yn cael ei dirprwyo gan mwyaf i'r ysgrifenyddiaeth sy'n ymdrin â'r holl waith papur rhagarweiniol a phrosesu ceisiadau i'r tribiwnlys. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r cadeirydd ar unrhyw bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod cyfnodau rhagarweiniol y gweithdrefnau cyn y gwrandawriad ac mae'n pasio dyfarniadau a chyfarwyddiadau'r cadeirydd yn ysgrifenedig i'r partion. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn gweithredu fel man cyswllt i'r cadeirydd, yr aelodau a'r partion ac mae'n mynychu'r holl wrandawriadau er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau'n rhedeg yn esmwyth.



Penodiadau

Yn dilyn ymddeoliad Simon Duffy ym mis Mai 2014, penodwyd Christopher McNall, drwy'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol, fel Dirprwy Gadeirydd ym mis Hydref 2014.

Hyfforddi ac Arfarnu

Cynhaliwyd y digwyddiad hyfforddi blynyddol cyntaf yn ystod mis Medi 2014. Bwriedir cynnal y digwyddiad nesaf yn ystod mis Medi 2015. Bydd yr arfarniadau yn cychwyn yn ystod 2015.

Cysylltu â'r Tribiwnlys

Er mwyn cysylltu ag ysgrifenyddiaeth TTA Cymru:

Cyfeiriad y Tribiwnlys: Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Spa Road East
Llandrindod
Powys
LD1 5HA

Llinell Gymorth y Tribiwnlys: 01597 829809

Ffacs y Tribiwnlys: 01597 829801

E-bost y Tribiwnlys: altwales@wales.gsi.gov.uk

Gwefan y Tribiwnlys: Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru – alt.gov.wales

Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon, mae ein:

- Rhifau ac ystadegau
- Adolygiadau ac apeliadau a ddygir ymlaen
- Cyrhaeddiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion

Rhifau ac Ystadegau


Mae blwyddyn y tribiwnlys yn rhedeg o Ebrill i Fawrth. Mae'r ystadegau canlynol yn cael eu coladu:

- nifer y ceisiadau a gafwyd ac a gofrestrwyd
- math o gais a gafwyd ac a gofrestrwyd
- nifer y ceisiadau a gwblhawyd
- canlyniad y ceisiadau.

Tabl 2.1 Nifer y Ceisiadau a Gafwyd ac a Gofrestrwyd yn ystod 2014-2015

Dygwyd ymlaen 14 o Geisiadau gan y Tribiwnlys i'r cyfnod hwn. Y mathau o Achosion oedd:

- 6 – Olyniaeth yn dilyn Marwolaeth
- 4 – Cydsynio i Rybudd Ymadael
- 2 – Olyniaeth yn dilyn Ymddeoliad
- 2 – Draenio Tir
- 1 – Tystysgrif Hwsmonaeth Wael




Tabl 2.2 Nifer y Ceisiadau a Gafwyd ac a Gofrestrwyd yn ôl Blwyddyn a'r Math o Gais

Math o Gais	Nifer o Geisiadau a Dderbyniwyd ac a Gofrestrwyd				
	2014-2015	2013-2014	2012-2013	2011-2012	2010-2011
Draenio Tir	6	0	4	3	3
Olyniaeth yn dilyn Marwolaeth	12	8	3	5	6
Olyniaeth yn dilyn Ymddeoliad	0	2	1	1	3
Cydsynio i Rybudd Ymadael	3	3	2	2	1
Tystysgrif Hwsmonaeth Wael	0	1	0	0	1
Cydsynio i Welliannau Tymor Hir	0	0	0	0	1
Cyfarpar Sefydlog	1	0	0	1	0
Cyfanswm	22	14	10	12	15

Tabl 2.3 Nifer y Ceisiadau a Gwblhawyd yn ôl blwyddyn

Math o Gais	Nifer o Geisiadau a Gwblhawyd (yn cynnwys y rhai a ddygwyd ymlaen o 2013-2014)				
	2014-2015	2013-2014	2012-2013	2011-2012	2010-2011
Draenio Tir	2	1	5	5	2
Olyniaeth yn dilyn Marwolaeth	4	8	4	12	8
Olyniaeth yn dilyn Ymddeoliad	2	1	0	3	4
Cydsynio i Rybudd Ymadael	4	2	1	2	2
Tystysgrif Hwsmonaeth Wael	1	0	1	0	0
Cydsynio i Welliannau Tymor Hir	0	0	0	0	1
Cyfarpar Sefydlog	1	0	0	0	0
Cyfanswm	14	12	11	22	17

Tabl 2.4 Ceisiadau a Gwblhawyd yn 2014-2015 yn ôl Canlyniad



Tabl 2.5 Ceisiadau yn ystod 2014-2015 yn ôl Math o Achos a Chanlyniad

Math o Gais	Canlyniad (yn cynnwys achosion a ddygwyd drosodd o 2013-2014)				
	Tynnwyd yn ôl	Gorchymyn Cydsynio	Gwrthodwyd	Cadarnhawyd	Aros am Ddyfarniad
Draenio Tir	1	0	1	0	6
Olyniaeth yn dilyn Marwolaeth	2	1	0	1	14
Olyniaeth yn dilyn Ymddeoliad	0	2	0	0	0
Cydsynio i Rybudd Ymadael	4	0	0	0	3
Tystysgrif Hwsmonaeth Wael	1	0	0	0	0
Cydsynio i Welliannau Tymor Hir	0	0	0	0	0
Cyfarpar Sefydlog	0	0	1	0	0
Cyfanswm	8	3	2	1	23

Gwrandawïadau

Yn ystod 2014-2015, aeth 5 Cais ymlaen i'r Gwrandawïadau Papur, a oedd yn golygu 2 Ddiwrnod ar gyfer y Gwrandawïad.

Adolygiadau ac apeliadau a ddygwyd ymlaen

Gellir gwneud ceisiadau am adolygu Penderfyniad Tribiwnlys gan bartion ar sail gyfyngedig. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, ni wnaed unrhyw Geisiadau.

Mae partïon yn gallu apelio i'r Uwch Dribiwnlys ar sail pwynt' cyfreithiol. Yn gyntaf, rhaid ceisio caniatâd ar gyfer hawl i apelio gan Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru. Bydd llythyr penderfyniad y tribiwnlys yn eich cyngori ynghylch unrhyw derfynau amser. Ni dderbyniwyd unrhyw apelïadau yn ystod y flwyddyn.


Cyrhaeddiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro a yw'r gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol sydd â'r nod o fesur dwy agwedd allweddol ar ein busnes; sef cyflymder ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy foddhad cwsmeriaid.

Er mwyn mesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o'r adeg pryd y daw'r cais i law hyd at y gwrandawriad neu ei gwblhau.

Er mwyn mesur boddhad cwsmeriaid, defnyddiwyd dangosydd sy'n deillio o arolygon boddhad cwsmeriaid a gynhelir yn rheolaidd.

Cyflymder ein gwasanaeth



Cwynion

Ni chafodd y Tribiwnlys unrhyw gwynion ffurfiol yn ystod y flwyddyn.

Adran 3 – Ein Cwsmeriaid

Yn yr adran hon, mae ein:

- Arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid

Mae'r Tribiwnlys yn ceisio gwella cyflenwi gwasanaethau i gwsmeriaid ac mae'n anelu at roi ein cwsmeriaid yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Yn ystod y cyfnod 2012/2013, sefydlodd y Tribiwnlys arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid. Mae canlyniadau'r arolwg yn ein galluogi i gael dealltwriaeth well o anghenion ein cwsmeriaid a rhoi cipolwg inni ar yr hyn y mae'r Tribiwnlys yn ei wneud yn dda, yn ogystal â thynnu sylw at y meysydd hynny lle mae'r Tribiwnlys angen gwella.

Daeth tair o ffurflenni wedi'u cwblhau i law yn ystod 2014/2015. O'r rhai hynny:

Dywedodd 100% o gwsmeriaid bod y Tribiwnlys o gymorth wrth ymdrin ag ymholiadau, ein bod yn ymateb yn gyflym a'u bod yn fodlon gyda'r wybodaeth a dderbyniwyd;

Cytunodd 100% o gwsmeriaid bod y Tribiwnlys wedi prosesu eu hachos yn effeithlon.

Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon, mae ein:

- Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2015-2016

Mae'n bwysig bod y Tribiwnlys yn parhau i ddatblygu er mwyn cyflawni'r gwasanaeth gorau posibl ar gyfer ein defnyddwyr. Mae'r adran hon yn trafod sut y bydd y Tribiwnlys yn adeiladu ar ei gyflawniadau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad ar gyfer ein defnyddwyr.

Blaenoriaethau Busnes 2015-2016

- Nodi anghenion hyfforddi aelodau'r tribiwnlys
- Parhau i gyflawni gwasanaeth o ansawdd uchel gan sicrhau bod DPA yn cael eu cwrdd
- Gweithredu Arfarniadau'r Aelodau ar y Gwrandawiadau
- Parhau i fonitro a diweddarau gwefan TTA Cymru

Adran 5 – Gwariant

Yn yr adran hon, mae ein:

- Gwariant ar gyfer 2015-2016

Gwariant ar gyfer 2014-2015

Cynnwys	Swm
Ffioedd a Threuliau'r Aelodau ar gyfer gweithrediadau'r tribiwnlys	£28,311
Digwyddiadau Tribiwnlys (costau'r gwrandawriadau)	£77.00
Cyfanswm	£28,388

* wedi'i dalgrynnu at y £1,000 agosaf